

Gwnewch y pethau bychain

Gydag uwchgynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar yr argyfwng hinsawdd yn Glasgow ar y gorwel, mae nifer o Gristnogion ifanco amgylch Prydain (Young Christian Climate Network) wedi trefnu taith gerdded o Gernyw i Glasgow er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r mater hollbwysig hwn. Roedd cangen o'r daith yn ne Cymru ac ymunodd **Nathan Munday**, Swyddog Ysgogi Eglwysi a Chodi Arian Cymorth Cristnogol yn y de-ddwyrain, gyda nhw am ran o'r daith. Dyma'i adroddiad:

Ar brynawn lau poeth, cerddodd grŵp o deithwyr blinedig i mewn i Gadeirlan St Woolos, Casnewydd, yn cael eu cyfarch gan Esgob Mynwy, Aelodau Seneddol ac Aelodau Lleol o Senedd Cymru. Roedd un o'r cerddwyr yn cydio mewn baner. Ar un ochr, roedd y ddraig goch yn sbecian dros ymyl y cyfnas. Ar yr ochr arall, roedd darlun o Dewi Sant, a'i lygaid yn edrych i fyny, wedi ei amgylchu gan y geiriau 'Gwnewch y pethau bychain'.

Y gwasanaeth hwn fyddai diwedd y daith bedwar diwrnod i mi, ond byddai eraill yn parhau â'r daith y diwrnod hwnnw, a'r wythnos ganlynol, hyd nes byddan nhw'n cyrraedd Glasgow ar gyfer uwchgynhadledd [COP26](#).

Pam ydym ni'n cerdded?

Mae'r daith hon i COP26 yn dangos inni fod Cristnogion ifanc (a hen) yn pryderu am gyfiawnder hinsawdd a gofalu am y greadigaeth. Rydym am weld newid systemig ar lefel byd-eang a lleol. Trwy ymuno â'r daith, gobeithiwn y gallwn godi ymwybyddiaeth o COP26 a'r alwad sydd arnom fel Cristnogion i gymryd rhan yn niwinyddiaeth gofalu am y greadigaeth, yn unigol ac yn gorfforaethol.

Nid rhywbeth 'ifanc' mo gofalu am y greadigaeth wedi'r cwbl, ac nid yw ar gyfer 'math' arbennig o Gristion yn unig.

Mae *hen* orchymyn yn nhudalennau cyntaf yr Ysgrythurau yn galw arnom i ofalu am yr hyn y mae Duw wedi ei ymddiried inni (Genesis 2:15). Dyw'r mandad hwnnw ddim wedi newid.

Y Daith Gymreig

Dechreuodd fy nhaith yn Abertawe, sef man cychwyn y daith Gymreig. Yn dilyn gweddi, brecwast da a nifer o gyfraniadau, aethom draw tuag at y gwaith dur cyn troi at gysegr hynafol Margam. Roeddem wedi blino ond fe gawsom groeso hynod o gynnes.

Ymunais wedyn o Benrhys a cherdded yr hen bererindod i'r de tuag at Landaf. Criw bach oeddem y diwrnod hwnnw, ond cawsom ein calonogi gan baneidiau o de ym Mhenrhys, Tonyrefail a Llantrisant. Y diwrnod canlynol, fe wnaethon ni gyrraedd y brifddinas ac ymunodd teuluoedd a chlerigwyr â ni yn y gadeirlan, cyn gorffen gyda phicnic ym Mharc Biwt.

Yr uchafbwynt i mi oedd y diwrnod olaf, pan oeddem yn cerdded tuag at Gasnewydd. Un neu ddau oedd yn cerdded ambell ddiwrnod, ond ar y dydd lau daeth criw da o St Teilo, ysgol yr Eglwys yng Nghymru; ficer o ogledd Cymru; tri gweithiwr ieuencid o Esgobaeth Llandaf; a Margaret – person ysbrydoledig – oedd wedi cerdded yr holl ffordd o Benarth i fod gyda ni. Mae'n wyth deg mlwydd oed!

Nid ydym i addoli'r greadigaeth – yr Arglwydd Dduw yn unig gaiff y fraint honno – ond nid ydym i wneud y gwrthwyneb chwaith, a'i hecsbloetio. Cawn ein harwain gan Micah i weithredu'n gyfiawn, i garu trugaredd ac i gerdded yn wylaidd gyda'n Duw. Mewn ffordd fach, mae'r daith hon, a phawb sy'n cymryd rhan ynddi, yn adlewyrchu'r dyhead hwnnw.



Lle i enaid gael llonydd Y groesffordd uwchben Ty'n Rhos

O roi i'r gair 'llonydd' yr ystyr o lawnder sy'n tawelu pob gofid, un lle sydd. Mae cyrraedd yno yn rhoi gollyngdod corfforol gan fod rhaid dringo o ba gyfeiriad bynnag y dewch chi; mae bod yno yn rhoi teimlad o fod yn un â'r cread anferth a rhyfeddol.

Croesffordd agored yw'r fan, uwchben Ty'n Rhos, ger Rhydpennau, 144 metr (472 troedfedd) uwch lefel y môr; cyfeirnod y Grid Cenedlaethol yw SN 642 854.

Does yma'r un adfail, na chofadail na charn, dim ond ehangder o dir a môr sydd, i fi, yn llawn ymwybyddiaeth o barhad fy ngwehelyth ar y darn hwn o ddaear, ymwybyddiaeth a etifeddais ac a drosglwyddais, gobeithio. Dyma olygfa sy'n fy ngwneud i'n un, yn gyfan; mae adleisiau o fywyd yn ei wahanol arlliwiau i ba gyfeiriad bynnag yr edrychaf. Mawr yw fy mraint yn cael y fath lecyn o fewn pellter cerdded i nghartref.

I gyfeiriad y gogledd-orllewin mae Eglwys Llanfihangel Genau'r Glyn yn nythu'n ddiymhongar yn y coed; tu draw iddi mae'r môr, ac enwau Cantre'r Gwaelod, Seitheny, Gwyddno Garan Hir, Ceridwen, Gwion Bach, Taliesin, yn dod â llais Miss Dilys Morgan, athrawes y babanod yn Ysgol Rhydpennau,

i glust fy nghof. Wrth weld brynau Llŷn ac Eifionydd tua'r gogledd, y lleisiau a'r geiriau sy'n dod yn fyw yw eiddo'r athrawon cydwybodol hynny ddysgodd i fi, drwy hanes a llenyddiaeth, mai fy ngwlad i yw Cymru, mai Cymraes ydw i.

Gwn fod y brynau sy'n estyn tua'r gogledd-ddwyrain yn llochesu dau gwm a roddodd faeth i rai o'm gwreiddiau, sef Cwm Ceulan a Chwm Ty-nant. Mewn tyddyn o'r enw Pant Carw yng Nghwm Ceulan, yn 1802, y ganwyd Mari Dafis, un o fy hen hen famau-cu o ochr fy mam. Mae ei bedd ym mynwent Llanfihangel Genau'r Glyn.

Mae'r enw Ty-nant yn ymddangos ar fy nghoeden deuluol mor gynnar â 1703. Oddi yno yr aeth y Parch Griffith Griffiths, brawd fy hen hen dad-cu, yn genhadwr i Jamaica yn 1825. Cafodd y gwerthoedd roedd e wedi eu hetifeddu yn y cwm diarffordd hwnnw eu hamlygu mewn llythyr at ei fam yn 1832, yn fuan ar ôl gwrthryfel y caethion, y 'Baptist War', yn 1831: 'Pan feddyliaf am benboethni, gwallgofrwydd a chythreuldeb y dynion gwynion, rwyf yn barod i newid fy nghroen.'

Tua'r dwyrain mae bro Dafydd ap Gwilym a chaer Banc y Darren, a dyma ardal y gweithiau mwyn lle bu fy nghyndeidiau

ar ochr fy mam yn ymdrechu a llafurio am genedlaethau. Yng ngwaith mwyn Cwm Sebon y lladdwyd Ned, brawd fy mam-gu, ar Fawrth 15, 1883, ac yntau'n ddim ond deunaw oed. Y bore hwnnw torrodd y stylledd oedd yn croesi'r siafft awyru wrth iddo wthio berfa drosti; disgynnodd yntau i lawr i waelod y siafft. Marwolaeth ddamweiniol oedd y dyfarniad; diolch bod gennym bellach Reoliadau Iechyd a Diogelwch.

O droi i wynebu'r de fe ddylwn i allu gweld Rhos Ymryson, 327 metr (1073 troedfedd), gryn 30 milltir i ffwrdd yn ne Ceredigion, a hynny'n fy nghlymu wrth yr ardal lle bues i'n byw ac yn magu fy nheulu am bron i ddeugain mlynedd ddedwydd. Yn ôl yr hanes, ymladdwyd brwydr waedlyd rhwng y Cymry a'r Saeson ar y Rhos yma yn 1158; y Cymry, dan arweiniad Einion ab Anarawd, a enillodd y dydd. Ai dyna'r Ymryson tybed?

I gyfeiriad y de-orllewin, wele fanc Rhyd-hir, lle magwyd fy hen fam-gu o ochr fy nhad, a ddaeth i fyw i Fryngwyn Canol ar ôl priodi, tra oedd ei chwaer wedi dod i fyw i Dy'n Rhos, y fferm islaw'r groesffordd, fan hyn.

A dyna fi, wedi cyfannu cylch cyfeiriadau'r cwm pawd, a myd i'n llawn o'r 'lleisiau a'r drychiolaethau' bendithiol sy'n byw yn y 'neuadd fawr rhwng fy nghyfyng furiau' ac sy'n cael eu cyffroi'n ddi-feth gan gyfaredd y groesffordd uwchben Ty'n Rhos.

Llinos Dafis
Llandre



Llun gan Iestyn Hughes

Salm fodern: Clodfori Duw yn y byd cyfoes

Dduw ein Tad, rydan ni'n dy glodfori am gynnal y gwan a'r gwael a'u calonogi yn yr oriau tywyll.

Rydan ni'n dy glodfori am ysbrydoli gwyddonwyr yn eu hymchwil i ddod o hyd i driniaethau a fydd yn gwella'r cleifion.

Rydan ni'n rhoi clod i Ti am roi doethineb i arweinwyr cymunedau er mwyn iddynt

allu gwneud penderfyniadau rhesymol. Rydan ni'n rhoi clod i Ti am ysbrydoli'r ifanc a'r cryf i helpu'r hen a'r methodig yn eu hardaloedd.

Rydan ni'n dy ganmol am roi inni'r gallu i helpu eraill, ble bynnag y bônt.

Rydan ni'n dy ganmol am ein hysbrydoli i fod yn gymdogion da, ac i fynd yr ail filltir pan fydd hynny'n bosibl.

Rydan ni'n dy foli am roi inni gydwybod i ysgwyddo cyfrifoldeb dros wledydd tlotaf y byd, a rhoi inni'r awydd i rannu'n hadnoddau â nhw.

Rydan ni'n dy foli am ysbrydoli mudiadau sydd yn gweithio dros gymunedau'r

gwledydd hyn mewn cyfnod o argyfwng newid hinsawdd.

Rydan ni'n dy foliannu am roi inni amynedd a goddefgarwch pan fyddwn mewn sefyllfa anodd.

Rydan ni'n dy foliannu am y llawenydd a gawn wrth gael ein hysbrydoli i ddyfalbarhau.

Rydan ni'n diolch i Ti am y ffydd gadarn sydd gan Gristnogion, er mwyn iddynt allu dangos esiampl, a gweithio'n ddiflino drosot Ti.

Rydan ni'n diolch i Ti am eu hysbrydoli i ledaenu'r efengyl, gan ogoneddu enw Iesu ledled daear.

Gwawr

O'r byd a'r betws

Cefnogi'r 'anabl'

Un o eiriau cymharol newydd y Gymraeg yw 'anabledd', er bod ei ystyr yn amrywio yn ôl y defnydd ohono. Yn amlach na pheidio, bydd cyfeirio at 'bobl gydag anabledd', a bydd ein gweddïau'n debygol o'i gynnwys wrth eiriol dros y 'gwan' neu'r 'methedig'. Bydd rhai yn byw gydag anabledd genetig, tra bydd eraill yn dysgu byw gydag anabledd – boed yn gorfforol neu'n feddyliol – yn dilyn anhwylder neu ddamwain.

Camgymeriad yw sôn am ddiodefod anabledd, gan ein bod yn gorfod dysgu byw gyda'n cyflyrau wrth i ni droedio llwybrau amser. Diolch am bob ymdrech a wneir i gynorthwyo'r sawl a ddiodefodd anafiadau ar faes y gad, boed y niwed ar eu meddyliau neu ar eu cyrff. Adroddwyd hanesion am amryw o wladwriaethau'r byd a anfonodd fechgyn a merched i frwydro, ac yna'u trin mewn modd cywilyddus wedi iddynt ddychwelyd adref.

Mae terminoleg yn bwysig yn y maes hwn, a bellach bydd angen gofalu mai'r model cymdeithasol sydd angen sylwi arno yn hytrach na'r model meddygol. Pobl sy'n gosod yr anawsterau i'r cyfeillion hyn yn hytrach na'r cyflyrau eu hunain. Cofiwn am y rhai sy'n byw gyda chyflyrau genetig, fel Syndrom Down, neu amgylchiadau fel y rhai a anwyd ar ôl i'w mamau dderbyn cyffur fel *thalidomide*.

Ceir ystod eang o gyflyrau na ellir eu rhestru mewn erthygl fer fel hon, ond diolchwn fod Llywodraeth Cymru wedi cyflogi nifer o bobl i weithio am y flwyddyn gyfredol fel llysgenhadon i ddwyn sylw at bobl ag anableddau. Byddant yn sôn am yr heriau y bydd y rheini'n eu hwynebu ac yn cyfeirio cyflogwyr yn benodol a chymdeithas yn gyffredinol at y modd y gellir cynorthwyo'r anabl yn gyffredinol. Cafwyd sawl hysbyseb ar y teledu'n sôn am drafferthion y palmentydd i'r sawl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn neu gyfarpar tebyg, a da hynny. Beth am adeiladau cyhoeddus, gan gynnwys capeli? Bydd eglwysi'n chwilio am esgusodion i beidio addasu adeiladau a sicrhau toiledau addas ar sail diffyg galw neu faint y gost.



Llun: © Llywodraeth Cymru

Canlyniad hynny yw troi cefn ar haen arbennig o blith y gymdeithas.

Un o'r negeseuon cyfredol yw annog cyflogwyr i sicrhau swyddi i'r bobl sydd ag anghenion arbennig, a hynny ar draws y sbectrwm gwaith. Wrth edrych ar eu [gwefan](#), gwelir bod gan y bobl hyn sgiliau gwerthfawr a nodweddion cadarnhaol. Nodir bod eu cysondeb a'u teyrngarwch yn y gwaith yn haeddu canmoliaeth, a bydd yn codi proffil y cyflogwyr sy'n rhoi cyfle i bobl ag anableddau.

Beth all eglwysi unigol ei wneud? Cam amlwg yw sicrhau darpariaeth benodol yn eu hadeilad ar gyfer y sawl sydd ag anghenion arbennig: mynedfa, man eistedd, toiledau ac ati. Gellir hefyd wahodd y llysgennad lleol i siarad am ei waith/ ei gwaith, a'r hyfforddiant sydd ar gael. Byddai'n braf bod yr eglwysi lleol, neu'r cyngor eglwysi lleol yn gofyn i'r cyflogwyr yn eu bro, faint o bobl ag anghenion arbennig sydd yn eu gweithluoedd. Dyma gamau penodol i ni ddangos cefnogaeth teulu'r ffydd i'r sawl sydd heb gael y sylw dyledus yn y gorffennol. Yn yr un modd, gall cyrddau dosbarth, henaduriaethau a chymaefoedd godi llais o blaid y bobl hyn, a hyrwyddo cyfiawnder iddynt. Wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol, cofiwn roi sylw a chynnig adnoddau priodol i'r bobl hyn.

Onid oes gan bawb anableddau o ryw fath, ac mae angen help arnom i gyd.

Denzil John
Caerdydd



EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU

Gofalaeth Bangor
a'r Cyffiniau

Gweithiwr Plant, Ieuenctid a Theuluoedd

Mae Gofalaeth Bresbyteraidd Bangor a'r Cyffiniau yn chwilio am berson egniol a brwdfrydig i weithio yn ei thair eglwys a datblygu'r gwaith ymhellach.

Oriau: 35 awr yr wythnos
(neu oriau i'w trafod)

Cytundeb: 3 blynedd yn y man cyntaf
gyda'r 6 mis cyntaf yn
gyfnod prawf

Cyflog: Graddfa 20-24 (£22,371 -
£24,477) a chyfle i ymuno â
phensiwn EBC

Mae'r Swydd hon yn amodol ar
ddatgeliad DBS manwl a dau eirda
boddhaol.

Mae gofyniad galwedigaethol
Cristnogol ac Iaith Gymraeg yn
berthnasol ar gyfer y swydd hon.

Am fwy o wybodaeth, ac am
ffurflen gais, cysylltwch ag:

e-bost – Cynthia Owen,
cynthiaowen@tiscali.co.uk
ffôn - 01248 364008

Dyddiad cau : Medi 13eg 2021


Mentro i'r Maes

Mae'n destun rhyfeddod i mi 'mod i'n dechrau gweithio dridiau ar ôl sgwennu'r geiriau hyn fel Tiwtor Diwinyddiaeth Gymreig i Athrofa Padarn Sant. Ymchwilydd addysg a chyfieithydd llawrydd dw i wedi bod ers blynnyddoedd. Ond fy ngwaith fel cyfieithydd sy'n cael y bai am hyn – roeddwn i'n cyfieithu ar y pryd yng nghyfres gweminarau Gofal ein Gwinllan yn y gwanwyn ac yn cyfieithu ambell bwt ysgrifenedig i'r Athrofa hefyd, a dyna sut gwelais i'r hysbyseb. Doeddwn i ddim yn chwilio am job; doeddwn i ddim yn meddwl y byddwn yn darlithio mewn diwinyddiaeth eto ar ôl gorffen dysgu modiwl i Brifysgol Bangor yn 2012. Ac eto ...

Beth bynnag, dyma fi. Mae'n debyg mai'r cwestiwn cyntaf y bydd pawb yn ei ofyn ydi: 'Beth ydi "diwinyddiaeth Gymreig"?' Wel, i ddechrau, nid un peth mohoni. Gellir adnabod nifer o ffrydiau a fu'n llifo drwy ddiwinyddiaeth y gornel hon o'r byd ar hyd y canrifoedd – weithiau'n byrlymu, yn gorlifo hyd yn oed, ac weithiau'n sychu'n llwyr, ond yn ymddangos eto mewn ffurf wahanol. Gallwn sôn am yr elfen bersonol, efengylaidd, diwinyddiaeth Pantycelyn ac Ann Griffiths, am yr elfen heddychol, yn enwedig yn y ddwy ganrif ddiwethaf, a'r ymhyfrydu yn undod y greadigaeth a amlygwyd mewn gwahanol gyfnodau.

Ond gan nad ysgrifennu ysgrif drom ar y mater ydi fy mwriad yma, mi ganolbwytiaf ar un agwedd, sydd i mi'n hollbwysig, sef yr argyhoeddiad bod a wnelo diwinyddiaeth â phopeth, a bod a wnelo popeth â diwinyddiaeth. Nid rhywbeth y gellir ei gadw'n saff mewn boc mo'n diwinyddiaeth, mwy nag y gellir gwneud hynny gyda Duw ei hun – er i laweroedd drio'u gorau glas i'w gaethiwo yn y eu drôr bach eu hunain.

Yn eironig, wrth i ddylanwad crefydd gyfundrefnol, draddodiadol grebachu, mi welaf fwy a mwy o gyfleoedd i edrych ar yr hyn a elwir yn 'seciwlâr' drwy wydr diwinyddiaeth, ac ar ddiwinyddiaeth drwy wydr y profiad seciwlâr – 'ymddiwinydda' oedd yr enw roddais i ar egin y syniad mewn cyfres o erthyglau dros chwarter canrif yn ôl. Rydym bellach wedi gweld cenhedlaeth, os nad dwy genhedlaeth, yn tyfu heb y 'gwreiddiau' Cristnogol Cymreig o unrhyw fath, ac mi ydw i'n credu bod hynny'n cynnig cyfle i fentro i'r maes hollbwysig hwn o'r newydd, â llechen lân. Cyfle, nid trychineb. Ac un arwydd a welaf o ddechreuadau hynny ydi bod mwy a mwy o'n llenorion a'n beirdd 'seciwlâr'



yn dechrau trafod pethau mewn termau diwinyddol, boed hynny'n ymwybodol ai peidio. Mae'r dwyfol allan o'r boc.

Ac un o'r prif bontydd rhwng diwinyddiaeth a'r byd, yn fy marn i, ydi celf – wel, fel bardd sy'n sgwennu emynau, mi fyddwn yn dweud hyn'na, yn byddwn! Felly dw i'n edrych ymlaen yn fawr, ond gyda pharchedig ofn yr her hefyd, at gydgerdded ag eraill dros y pontydd hynny, o'r ddau gyfeiriad, ac weithiau oedi am ysbeidiau go hir ar eu canol. Dw i wir yn meddwl y gall Cymru gyfrannu rhywbeth i'r byd yn y maes hwn – ac y gallwn ninnau ddysgu oddi wrth ddiwyllianau eraill sydd wedi bod yn codi ac yn croesi eu pontydd eu hunain.

Gweithio o fewn yr Eglwys yng Nghymru y mae'r Athrofa yn bennaf, yn hyfforddi ymgeiswyr ar gyfer gweinidogaethau ordeiniedig a lleyg. Ac yn ogystal ag apêl y pwnc ei hun, mae dau beth arall yn benodol wedi fy nenu at y swydd hon. Yn gyntaf, roedd yr Athrofa wedi bod yn gwneud llawer o'i gwaith ar-lein, yn ogystal â chynnig hyfforddiant ar lawr gwlad ledled Cymru, ymhell cyn i'r Pla yma orfodi pawb ohonom i ddod yn Zoom-lythrennog. Felly, sefydliad sy'n ymroddedig i ddod â'r hyfforddiant at y bobol ydyw yn hytrach nag un sy'n disgwyl i bawb heidio i gampws daeryddol penodol bob tro. Yn ail, mae yna bosibiliadau cyffrous o weithio'n eciwmenaidd, ac nid rhyw fod yn 'eglwysyddol gywir' na dim byd fel'na ydi hynny i mi, ond mater o synnwyr cyffredin a synnwyr Ysgrhythuro, a hynny'n arbennig yng Nghymru 2021 lle, ella, plis, fod gorfod addoli mewn byd rhithwir wedi dechrau dangos i ni mor rhithiol fu'r rhan fwyaf o'n ffiniau mewn difrif.

Felly dyna flas ar y fenter. Mae Athrofa Padarn Sant wedi mentro 'mhenodi a finnau wedi mentro derbyn. A mentraf ofyn am weddiâu pawb sy'n darllen hyn o lith wrth i ni fynd at y gwaith.

Siôn Aled Owen



EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU

Henaduriaeth Môn

Swyddog Teuluol Cristnogol Henaduriaeth Môn

Mae Henaduriaeth Môn yn chwilio am berson egniol a brwdfrydig i weithio gydag eglwysy'r henaduriaeth i ddarparu gweinidogaeth i blant, ieuencid a theuluoedd yr Ynys.

Oriau: 35 awr yr wythnos (neu oriau i'w trafod)

Cytundeb: 3 blynedd yn y man cyntaf gyda'r 6 mis cyntaf yn gyfnod prawf

Cyflwg: Graddfa 20-24 (£22,371 - £24,477) a chyfle i ymuno â phensiwn EBC

Mae'r Swydd hon yn amodol ar ddatgeliad DBS manwl a dau eirdd boddhaol.

Mae gofyniad galwedigaethol Cristnogol ac Iaith Gymraeg yn berthnasol ar gyfer y swydd hon.

Am fwy o wybodaeth, ac am ffurflen gais, cysylltwch ag:

e-bost – Hedd Morgan
hedd@ebcpw.cymru

ffôn - 07815960439

Dyddiad cau : Medi 13eg 2021

Y Gymdeithasfa yn y Gogledd – Capel y Traeth, Cricieth, 13 Mehefin 2021

Wrth estyn croeso twymgalon i Gapel y Traeth, Cricieth, i'r Gymdeithasfa yn y Gogledd, dywedodd y Llywydd, Mrs Cynthia Owen, ein bod yn 'torri tir newydd'. Er bod ychydig o'r swyddogion a'r cynrychiolwyr yn bresenol, roedd y mwyafrif ohonom yn ymuno'n rhithiol.

Dechreuwyd yr eisteddiad cyntaf yn y modd priodol gyda defosiwn gan Mr Edward Owen, Horeb, Dyffryn Ardudwy. Arweiniwyd yr eisteddiad yn ddoeth a diffuant gan y Llywydd, a hithau'n cydnabod ei bod yn ddyledus i'r ysgrifennydd, y Parchedig Ddr Elwyn Richards, am baratodau trylwyr.

Enwebwyd tair ar gyfer yr etholiad i fod yn Llywydd y Gymanfa Gyffredinol, sef y Parchedig Nan Wyn Powell-Davies, Mrs Marian Lloyd Jones a Mrs Cynthia Owen.

Cyflwynwyd Polisi Amgylcheddol Eglwys Bresbyteraidd Cymru gan y Parchedig Nan Wyn Powell-Davies. Mae'n ddogfen swmpus a fydd yn cael ei haddasu eto yn sgil yr ymatebion a gafwyd iddi hyd yma, cyn ei chyflwyno i sylw'r Gymanfa Gyffredinol ym mis Medi. Nod y polisi fydd cryfhau ein hymateb i fygythiad newid hinsawdd a'i sgileffeithiau byd-eang.

Yn ystod yr adroddiad o Bwyllgor Gwaith y Gymdeithasfa mynegwyd gwerthfawrogiad o'r ymateb hael a fu i Apêl Covid-19 Ysbytai India. Ateggodd y Parchedig Gwenda Richards fod cyfeillion ysbytai Shillong a Jowai yn eithriadol o ddiolchgar am y gefnogaeth wrth wynebu'r argyfwng.

Y Parchedig Megan Williams fu'n ymddiddan â Mrs Meinir Lloyd Jones am 'Hanes yr Achos yn Henaduriaeth Gorllewin Gwynedd'. Diolchodd am y ddogfen a baratowyd o dan arweiniad y Parchedig R. O. Roberts. Mae'n cynnwys adroddiadau am wahanol agweddau ar waith yr henaduriaeth sy'n ymestyn o Uwchmynydd i lawr i Bennal, ger Machynlleth. Cyfeiriwyd at y golled enfawr a gafwyd ym marwolaeth Ysgrifennydd yr Henaduriaeth, y diweddar Mr Geraint Lloyd Jones, yn 2020. Gydag amynedd a doethineb gwasanaethodd yr henaduriaeth yn ddifflino ers ei sefydlu, a bu'n ysgrifennydd Henaduriaeth Gorllewin Meirionnydd cyn hynny. Rydym yn ffodus bod ei briod, Mrs Meinir Lloyd Jones, wedi derbyn y swydd ac yn parhau â'r gwaith.

Wrth grynhoi sefyllfa'r henaduriaeth yn sgil y pandemig, soniodd Meinir Lloyd Jones am y newid syfrdanol a ddigwyddodd ers i 'Hanes yr Achos' gael ei lunio bymtheg mis yn ôl. Fel pob henaduriaeth, roedd yn rhaid addasu a dangos hyblygrwydd. Y Pwyllgor



Gwaith fu'n delio â materion oedd yn codi o ddydd i ddydd, a hynny drwy gyfarfod ar Zoom, ac argraffwyd y cofnodion yn llawn er mwyn cadw pawb yn y darlun. Diolchwyd i swyddogion yr henaduriaeth, y gweinidogion a Mr Andrew Settatee, y cynorthwyr bugeiliol, am eu gwaith dros y cyfnod heriol hwn.

Llongyfarchwyd gweinidogion a blaenoriaid oedd yn dathlu eu hordeiniad y llynedd neu eleni. Oherwydd y pandemig, bydd y tystysgrifau'n cael eu cyflwyno iddynt drwy'r henaduriaethau. Y gweinidogion oedd:

70 Mlynedd

2021

Y Parch Owen J Roberts

60 Mlynedd

2020

Y Parch John Davies Hughes

Y Parch Eifion G. Jones

Y Parch John M. Jôb, BA, BD

Y Parch Ddr Goronwy Prys Owen, MA

Y Parch Harri Parri, MA, BD

Y Parch W H Pritchard, BA, BD, BLitt

Y Parch Elfed ap Nefydd Roberts, MA DD

2021

Y Parch Elfyn Richards

50 Mlynedd

2020

Y Parch W. Gareth Edwards, BA, BD

40 Mlynedd

2020

Y Parchg John G. Morris, BD

2021

Y Parch Gwyn Rhydderch, BD

Y Parch Eifion Wyn Williams

Diolchwyd yn ddiffuant i'r gweinidogion a'r blaenoriaid oedd wedi cyflwyno oes o wasanaeth i'r eglwys a'r Cyfundeb, a'r cyfan er mwyn lledaenu teyrnas Crist.

Ar ddechrau'r ail eisteddiad arweiniwyd y defosiwn gan y Parchedig Anna Jane Evans.

Darllenwyd teyrngedau i chwech o gynlywyddion y Gymdeithasfa a gollwyd, sef:

Mr I. D. Gwynne Pickering, Sasiwn y De

Yr Athro John Gwynfor Jones, Sasiwn y De

Y Parchedig W. I. Cynwil Williams, Sasiwn y De

Y Parchedig Ddr Elfed ap Nefydd Roberts, Sasiwn y Gogledd

Mr Geraint Lloyd Jones, Sasiwn y Gogledd

Y Parchedig Geoffrey Barrington, Sasiwn y Dwyrain.

Hefyd coffawyd dau o Weiniogion y Gymdeithasfa yn y Gogledd, sef:

Y Parchedig John Owen, Bethesda

Y Parchedig Ronald Wyn Roberts, Llanrug.

Coffawyd pob blaenor sydd wedi ein gadael yn yr angau ac offrymwyd gweddi gan y Parchedig Bryn Williams.

Yn araith ymadawol y Llywydd, dywedodd Cynthia Owen fod ei llywyddiaeth wedi para dwy flynedd a thri mis yn hytrach na'r flwyddyn arferol. Soniodd fod y rhan fwyaf ohonom erbyn hyn yn gyfarwydd â'r cyfryngau newydd sy'n hwyluso bywyd ein heglwys. Pwy fyddai wedi disgwyl yr holl ddatblygiadau hyn mewn cyn lleied o amser? Gofynnwyd y cwestiwn treiddgar: 'Ydan ni'n barod i feddwl yn fwy creadigol wrth wynebu'r dyfodol?'



Y Parchedig Eric Greene

Trosglwyddwyd y Llywyddiaeth i'r Parchedig Eric Greene, y Bala. Y Parchedig Marcus Wyn Robinson offrymodd weddi ar ran y Llywydd newydd, a'r Parchedig Olwen Williams a ddiolchodd i'r cyn-lywydd am ei hymroddiad yn ein tywys yn gadarn drwy gyfnod mor heriol.

Wrth ymadael a'r Sasiwn nid oedd raid wynebu siwrne hir adref, dim ond pwyso 'close the meeting' ar y cyfrifiadu'r! Diolch am Sasiwn wahanol pan wynebwyd llawer o anawsterau dan wenu!

*Christopher Prew
Porthmadog*

Yr Ysbryd Glân 8 – R Tudur Jones

Ffrwyth yr Ysbryd – Ffydd, Addfwynder a Dirwest



Dros yr haf fe fyddwn yn cyflwyno penodau o glasur R Tudur Jones, *Yr Ysbryd Glân*, a fu'n llyfr gosod i ddsbarthiadau oedolion yr Ysgol Sul ar gyfer 1972.

Mae'r rhinweddau hyn yn perthyn yn agos i'w gilydd.

Ffydd i ddechrau. Sonia'r Arglwydd Iesu am yr amrywiaeth sydd yn ffydd pobl. Mae rhai 'o ychydig ffydd' (Mathew 6:30; 8:26; 16:8). Ac am y canwriad yng Nghapernaum dywedodd, 'Ni chefais gymaint ffydd, naddo yn yr Israel' (Mathew 8:10). Y mae'r apostolion hefyd yn gofyn i Iesu Grist gryfhau eu ffydd (Luc 17:5). Golyga hyn fod cynnydd yn bosibl mewn ffydd. Nid yw hyn yn syndod. Mae mewn ffydd elfennau deallol, teimladol ac ewyllysiol. Trwy feistrolï'n well y gwirionedd am Dduw ac am ddyn a than ddylanwadau'r Ysbryd Glân, bydd pobl yn cyrraedd lefelau newydd o deimladrwydd ac yn derbyn adnoddau cynyddol o egni i ewyllysio. Y mae'r ffydd leiaf yn ffydd achubol, wrth gwrs, ond ein dyletswydd yn ceisio sicrhau cynnydd ein ffydd, trwy ein diwydrwydd ein hunain a thrwy ymbil ar yr Arglwydd, 'perffeithydd ein ffydd ni' (Luc 17:6; Hebreaid 12:2).

Rhaid i ffydd wrth gynhaliath. Rhaid holi Cristnogion a ydynt 'yn parhau yn y ffydd' (Colosiaid 1:23), neu a ydynt wedi'u 'cadarnhau' yn y ffydd (Colosiaid 2:6, 7), oherwydd y mae ffydd yn cael ei chaledu 'trwy amryw brofedigaethau' (1 Pedr 1:7).

Ond lle bo ffydd yn gadarn a chyson, yno ceir ffyddlondeb. Mae'r gŵr sy'n meddu ffydd yn ŵr ffyddlon – mae'n was 'ffyddlon a doeth', yn gofalu am fwyd i'r teulu nes dychwelyd o'i Arglwydd (Mathew 24:45–51). Yr ydych yn gwybod lle i'w gael. Nid oes dim orioyngdo. Nid yw'n anghyson nac yn anghyfrifol. Y mae Tychius yn 'weinidog ffyddlon yn yr Arglwydd' (Effesiaid 6:21) – yn wir, cyferchir pobl ei ofal yn Effesus fel 'ffyddloniaid yng Nghrist Iesu' (Effesiaid 1:1). Ac nid yn hawdd y ceir y ffyddlondeb hwn. O drugaredd y daw, fel yr awgryma Paul wrth ei ddisgrifio'i hun 'fel un a gafodd drugaredd gan yr Arglwydd i fod yn ffyddlon' (1 Corinithiaid 7:25).

Pofwafyw'r pwysau ar ffydd, mwyafynybydd yw'r angen i atgoffa'n gilydd mai o drugaredd yr Arglwydd y ceir ffyddlondeb. Daw hyn yn amlwg mewn ffyddigaethau personol, mewn salwch, neu pan fo

Cristnogaeth ei hun yn bwnc amheuaeth ac ysgafnder. Yn ein heglwys gwelir llawer yn cilio oherwydd nad ydynt eisiau'r capel mwyach i roi statws cymdeithasol iddynt nac adloniant chwaith. Lle gynt yr oedd gwŷr ieuainc yn mynd yn weinidogion er mwyn cael addysg yn rhad neu er mwyn cael llwyfan dymunol i'w doniau cyhoeddus, gallant ddiwallu'r anghenion hynny'n awr mewn manau eraill. Yn nydd y ddrycin rhaid wrth gymhellion o blaniad Ysbryd Duw. Ac y mae'r ffyddlondeb sy'n addas yn y dydd blin yn ffrwyth yr Ysbryd Glân. A dyma'r ffydd a bortreadir mor gofiadwy yn Hebreaid 11.

Am 'addfwynder', gadewch inni sylwi'n gyntaf mai'r addfwyn, yn ôl Iesu Grist, sydd yn etifeddu'r ddaear (Mathew 5:5). A chofiwch hefyd i'r Iesu ddweud amdano'i Hun, 'addfwyn ydyf a gostyngedig o galon' (Mathew 11:29). O roi'r ddwy adnod yn gyfochrog â'i gilydd, dyna Frenin a deiliaid y Deyrnas yn fuddugoliaethus. Nid yw 'addfwynder' ar yr olwg gyntaf yn rhinwedd addas i goncwerwr daear. Beth yw'r cysylltiad? Y gair a ddefnyddiodd William Salesbury yn Nhestament 1567 oedd 'gwareidigenus'. Gwelwn pam y dewisodd y gair anghyffredin hwn ond inni gofio mai un o ystyrion y gair Groeg yw 'dof'. Yr anifail dof yw'r un a ddiddyfnwyd oddi wrth ei wylltineb a'i wareiddio. Y gŵr 'addfwyn' yw'r gŵr gwâr. Nid oes dim yn wyllt na barbaraidd ynddo. Mae'n gwybod sut mae ymddwyn ym myd Duw; dysgodd gwrteisi'r Deyrnas. A phan fydd gwareiddiad Duw wedi meddiannu'r ddaear, ni bydd lle mwyach i anwariaid: 'Oddi allan y mae y cŵn, a'r swyn-gyfareddwyr, a'r puteinwyr, a'r llofruddion, a'r eilunaddolwyr, a phob un a'r sydd yn caru ac yn gwneuthur celwydd' (Datguddiad 22:15). Pobl sydd wedi'u gwareiddio i Deyrnas Dduw biau'r dyfodol; nhw sy'n mynd i etifeddu'r ddaear. Difa ac anrheithio'r ddaear y mae'r bobl sy'n aros yn anwareidd-dra pechod ac nid oes dyfodol iddynt hwy nac i'r byd dan eu rheolaeth.

Y mae ffyddlondeb ac addfwynder yn esgor ar ddirwest. Unigystyry gair 'dirwest' i'r rhan fwyaf ohonom bellach yw 'llwrymwrthod ag

alcohol'. Ei ystyr yn y Testament Newydd yw 'hunan-ddisgyblaeth'. Cymdeithas oddefol iawn oedd y gymdeithas y pregethwyd Crist ynddi gyntaf. Erbyn cyfnod Claudius a Nero, sef y cyfnod pan oedd yr Apostol Paul yn teithio o gwmpas yr Ymerodraeth, yr oedd safonau moesol yn prysur fynd yn deilchion. Yn yr ymchwil am bleserau newydd, ni waherddid unrhyw arbrofi mewn creulondeb, glythineb a rhyw. Yr oedd llawer o'r uchelwyr yn byw bywyd o foethusrwydd costus mewn adeiladau o harddwch drudfawr digyffelyb. Ac yr oedd byddinoedd o gaethion wrth law i wasanaethu pob chwiw ac angen. Aeth difyrwrch yn ddiwydiant mawr yn galw am adeiladau enfawr i gynnal yr arddangosfeydd. Casglwyd anifeiliaid gwyltïon o bob math o bellafodd yr ymerodraeth i ymladd â'i gilydd ac â dynion er difyrwrch y miloedd. Cynhelid cannoedd o ymladdwyr profesiynol a gyrwyr cerbydau rاس i gystadlu â'i gilydd yn yr arena. A'r canlyniad oedd fod cyfartaledd uchel o ddyddiau'r Rhufeiniwr cyffredin yn mynd i wylïo'r sioeau hyn. Rhwng popeth, yr oedd pob cefnogaeth i'r dinasyddion wasanaethu eu trachwant a'u greddfau heb boeni am safon na moes. Yn erbyn cefndir o'r math yma, un o frwydrau anodaf Cristnogaeth gynnar oedd cynnal hunan-ddisgyblaeth. Yr oedd yn gofyn cryfder ewyllys a chymeriad i wrthsefyll deniadau hollbresennol y gymdeithas a'i cylchynai. Yr oedd yn rhaid ymddisgyblu i ymarfer cymedroldeb mewn bwyta ac yfed, i feithrin bywyd teuluol glân, i ymgadw rhag y pen-rhyddid rhywiol oedd yn ysu bywyd y gymdeithas baganaid, i ymwrthod â'r gwanc am foethusrwydd ar y naill law ac ariangarwch a chybydd-dod ar y llall. Mewn gair, yr oedd yn rhaid wrth 'ddirwest'.

Darlleniadau:

Am ffydd, Mathew 17:14–21; Galatiaid 3:1–11; Hebreaid 11:1–6. Am addfwynder a dirwest, gw. y disgrifiadau niferus o'r gwarineb Cristnogol mewn lleoedd fel Effesiaid 5:15–21; Philipiaid 3:17–21; 4:4–8; Rhufeiniaid 12:9–21; 13:8–14; 1 Pedr 2:1–12.

Llyfrau:

Gan fod 'ffydd' yn air sy'n tueddu i gollï'i ystyr gyfoethog erbyn heddiw, nid drwg o beth fyddai craffu ar rai o ddisgrifiadau'r hen ddiwinyddion ohono – byddai diffiniad cwmpasog John Elias yn *Traethawd ar Gyfiawnhad Pechadur* (1821), 122–143, gystal man cychwyn â'r un. A phrin y ceir casgliad o bregethau heb o leiaf yn bregeth yn trafod 'ffydd'. Gw. hefyd erthygl Bauer ar 'Faith' (o'r safbwynt Gatholig); Calfin, *Inst.*, III, 2; Luther, *Traethawd ar Ryddid y Cristion* (1520 – am fersiwn Gymraeg, gw. John Morgan Jones, *Traethodau'r Diwygiad yng Nghyffres y Werin*) a'i *Traethawd ar Weithredoedd Da* (1520); K. Barth, *Dogmatics in Outline* (1949), 2, 3, 4; H. F. Lovell Cocks, *By Faith Alone* (1943); R. Bultmann, *Theology of the New Testament*, I (1952), 314–330; Gerhard Ebeling, *The Nature of Faith* (Fontana).



O Gefn Gwlad



Gwacter

'Lle gwag. Lle heb ddim.' Dyna ddau ddiffiniad y *Geiriadur Mawr* o'r gair gwacter, ac i mi y mae'r ail ddiffiniad yn llawer gwell na'r cyntaf. Absenoldeb pethau sy mewn lle gwag, megis stafell heb ddodrefn ynddi. Ond y mae i wacter ystyr ddyfnach, yn ymwneud nid yn gymaint â phethau ond â theimladau, â pherthyn a theulu a chymdeithas, ag ystyr bywyd ei hun.

Y mae diffiniad da o wacter gan Saunders Lewis yn ei ddrama *Blodeuwedd*, ac yng ngeiriau *Blodeuwedd* ei hun, yr un a wnaed o flodau – yr un oedd, oherwydd hynny, yn wahanol i bawb arall, a heb fod yn perthyn mewn gwirionedd i'r byd hwn. Mae *Blodeuwedd* yn edliw i'w morwyn, Rhagnell, y manteision o fod yn rhan o ddynoliaeth naturiol y byd o'i chwmpas, ac mae'n mynd ymlaen i ddweud amdani ei hun:

Minnau nid oes i mi ddim un cynefin
Yn holl ffyrdd dynion; chwilia Wynedd draw
A Phrydain drwyddi, nid oes dim un bedd
A berthyn imi, ac mae'r byd yn oer
Yn estron imi, heb na chwlmw câr
Na chadwyn cenedl.

Meddylwch – 'dim un bedd a berthyn imi'! Gallaf ddeall y teimlad o fyd sy'n oer, sy'n wag, gan fod y teimlad hwnnw yn dod drosof innau ar adegau. Mae'n dod yn aml pan glywaf fod cyfaill neu gydnabod neu aelod o'r teulu wedi mynd, wedi marw. Ac mae'n dod gan mai'r hyn sy'n cael ei adael ar ôl wedi'r mynd yw gwacter. Po agosaf fu'r berthynas rhyngof a'r un fu farw, dyfnaf y teimlad o wacter, wrth gwrs. Gwn fod atgofion yn help, ac y mae gennym i gyd feddau, ond dydyn nhw byth yn llawn lenwi'r gwacter adawyd gan y mynd.

Mae'n digwydd amlaf ar yr elfen leol yma yng nghefn gwlad lle mae'r gymdeithas yn un glòs, ac wrth gwrs o fewn y teulu. Ond gall ddigwydd ar raddfa genedlaethol hefyd. Rwy'n cael y teimlad yn aml pan fydd rhywun o bwys cenedlaethol wedi marw, rhywun adawodd ei farc mewn cylch arbennig o fywyd.

Ar yr un pryd, wrth sôn am rai o bwysigrwydd cenedlaethol, mae'n bwysig pwysleisio fod i bob person yr un gwerth. A dyfynnu'r Parch. Elfed ap Nefydd, yr oedd mor chwith ei goll: 'Y mae pob person yn gyfartal yng ngolwg Duw, ond nid yw pob un yn gyfartal o ran gallu.' Na, nid pawb gafodd bum talent; cafodd llawer ddwy a llaweroedd mwy un, ac nid yw canmol y rhai gafodd bump am eu gweithredoedd yn golygu dilorni'r rhai gafodd un. Cas ddameg gen i yn y Beibl yw dameg y talentau, gan y gall greu'r argraff anghywir ac awgrymu mai'r rhai gafodd leia o

talentau sy'n fwya tebygol o'u diystyru a'u camddefnyddio. Dyw hynny ddim yn wir. Mi wn nad dyna wir neges y ddameg, ond dyna'r argraff a rydd.

Ond rwy'n crwydro! Pwysig i genedl yw ei harwyr, ei ffigyrau cenedlaethol, y rhai y cyfeiria diwylliant Groeg atynt fel cyn-arwyr pan fyddant wedi marw. Pan fydd marw un o'r rhai cenedlaethol hyn y mae ynof wacter, ac mae'r gwacter hwn, rwy'n sicr, yn rhywbeth y mae pob un ohonom yn ei deimlo o dro i dro mewn bywyd. Ac am mai erthygl i *Cenn@d* yw hon, y mae yna gwestiwn i'w ofyn. I ba raddau y mae ein cred yn gymorth i lenwi unrhyw wacter a deimlwn? Ac ai dyna bwrpas crefydd?

Oherwydd y mae yna, os rhywbeth, wacter gwaeth na'r hyn a deimlwn o golli câr a chyfaill a chydabod, sef gwacter ystyr, term yr athronydd J. R. Jones. A oes ystyr i'n bywydau? Ac os oes, beth ydyw? Beth am y rhai di-gred, y rhai sydd wedi troi cefn ar grefydd? A oes ystyr i'w bywydau nhw? A oes raid wrth gred i sicrhau bod ystyr i fodolaeth ar y ddaear? Rhag y teimlad diffaith o'r oerni a deimlodd *Blodeuwedd*, rhag y gwacter i ystyr bywyd a ddisgrifiwyd gan J. R. Jones, ai Cristnogaeth yw'r gwrthwenwyn (*antidote*) i hyn oll? Ie, i rai yn sicr, onid dyna ddylsai o fod i bawb?

*Elfyn Pritchard
Sarnau*

Dathlu 65 mlynedd o fywyd priodasol

Llongyfarchiadau i Denis ac Arvon Young ar ddathlu 65 mlynedd o fywyd priodasol yn ystod mis Awst. Pob dymuniad da iddynt gan aelodau Caersalem Caernarfon.



Dyma gyfarfod hyfryd iawn

Ymgryfhewch yn yr Arglwydd

Emyn 294 'Iesu, difyrrwch f'enaid drud'

Darlleniad 1

Salm 84 'Mor brydferth yw dy breswylfod, O ARGLWYDD y Lluedd'

Gweddi

Arglwydd, wrth ddarllen y salm mae hiraeth yn codi yn fy nghalon am dy bresenoldeb byw ymhlith dy bobl. A ninnau wedi'n caethiwo cymaint yn ddiweddar, mae adlais dwfn yn of i'r geiriau hyn yn fy nghalon: 'Gwell yw diwrnod yn dy gynteddau di na mil gartref.' Dyro i mi'r cadernid a ddaeth i'r salmydd o'th adnabod di, 'Ânt o nerth i nerth, a bydd Duw y duwiau yn ymddangos yn Seion.' Boed ffordd y pererinion yn fy nghalon, a dyro i mi ymddiried ynot.

Does gennyf ond dy allu mawr
i'm nerthu i fynd ymlaen;
dy iachawdwriaeth yw fy ngrym
a'm concwest i a'm cân. Amen.

Darlleniad 2

Effesiaid 6:10-24 'Ymgryfhewch yn yr Arglwydd ac yn nerth ei allu ef'

Myfyrdod

'Ymgryfhewch yn yr Arglwydd ac yn nerth ei allu ef'

Wrth droi at ddysgeidiaeth Paul am 'arfogaeth Duw', da o beth yw atgoffa ein hunain sut y cychwynnodd ei epistol: 'Bendigedig fyddo Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist! Y mae wedi'n bendithio ni yng Nghrist â phob bendith ysbrydol yn y nefolion leoedd' (1:3). Dyma yw ein rhan yng Nghrist Iesu, ac o'r ffynnon o fendith ysbrydol yng Nghrist y mae'r apêl yma'n deillio: 'Ymgryfhewch yn yr Arglwydd ac yn nerth ei allu ef' (6:10). Thema debyg i'r salmydd: 'Ânt o nerth i nerth, a bydd Duw y duwiau yn ymddangos yn Seion' (Salm 84:7).

Mae'r cyfan o'r Effesiaid hyd yma wedi dangos i ni nad oes dim y gallwn ei gyflawni ohonom ein hunain. Wedi'r cyfan, onid ydym wrth natur yn farw yn ein camweddau a'n pechodau (2:1). Ef a'n gwnaeth yn fyw gyda Christ, ei waith Ef ydym (2:4, 10). Nid galwad i fynd i'r gad, yn bennaf, sydd gan Paul yma. Yn hytrach, ystyried y mae sut y gallwn wrthsefyll y tonnau o demtasiwn, o ddrygioni a difaterwch a ddaw drosom o du'r diafol, cnawd a'r byd (gweler 2:1-3).

Ymgryfhau yn yr Arglwydd a wnawn - yn ei allu ef, nid yn ein nerth ni. A'r

wers gyntaf felly yw gwyleidd-dra. Ers y bedwaredd bennod, mae Paul wedi bod yn pwysleisio ein darostyngiad ni i'r Arglwydd ac i'n gilydd. Mae'r cyngor sy'n ymwneud â'n perthynas ag eraill i gyd yn deillio o'r patrwm a roddodd ac a ddangosodd y Mab, pan ddarostyngodd ei hun i fywyd o ufudd-dod yn y cnawd yn ein plith, hyd at ei farwolaeth ar groesbren (cymharer Philippiad 2:5-11). Ymgryfhawn ynddo drwy'r fendith a ddaw i ni drwy ei atgyfodiad a'i esgyniad ef (2:13).

'Gwisgwch amdanoch holl arfogaeth Duw'

Pan briododd fy mrawd, fe ofynnodd i mi fod yn was priodas iddo. Gyda hyn bu raid i mi ddarostwng i ddymuniadau ei ddarpar dad yng nghyfraith, a gwisgo *morning suit* gyda *top hat* a phob dim. I mi, roedd eu gwisgo ar y dydd yn debyg i brofiad y tu 'allan o'm corff' o ddiarth ac anghyfforddus. Dwi'n amau fod teimladau tebyg gan nifer wrth ddarllen disgrifiad Paul yma o holl arfogaeth Duw.

Nid dyma'r tro cyntaf iddo ddefnyddio'r darlun o 'wisgo amdanom', am mai fel hyn y mae'n esbonio ein natur newydd, drwy ffydd, yn Iesu: 'Fe'ch dysgwyd eich bod i roi heibio'r hen natur ddynol oedd yn perthyn i'ch ymarweddiad gynt ... a'ch bod i ... wisgo amdanoch y natur ddynol newydd sydd wedi ei chreu ar ddelw Duw, yn y cyfiawnder a'r sancteiddrwydd sy'n gweddu i'r gwirionedd' (4:22-4).

Fel y'n gwisgwyd â'i gyfiawnder a'i sancteiddrwydd ef, rydym yn awr i wisgo arfwisg Duw i'n hamddiffyn.

'Nid â meidrolion yr ydym yn yr afael'

Fe ddylai fod yn haws i ni, yn y blynyddoedd cythryblus hyn, ddeall beth sydd mewn golwg gan Paul pan mae'n cyfeirio at 'gynllwynion y diafol. Nid â meidrolion yr ydym yn yr afael, ond â thywysogaethau ac awdurdodau, â llywodraethwyr tywyllwch y byd hwn, â phwerau ysbrydol drygionus yn y nefolion leoedd' (6:11b-12). Onid yw'n teimlo fod yna rymoedd mileinig ar waith yn ein cymdeithas gyda'r cynnydd mewn casineb, drwgdybio, ymrafael a chelwydd noeth? Mae yna ymbleidio a chasáu'r 'llall' a'r estron.

Os ydym fel Eglwys Crist yng Nghymru am oroesi a chodi eto, rhaid i ni unwaith eto ddeall natur y frwydr rydym ynddi a'n harfogi ein hunain ar ei chyfer, 'er mwyn

ichwi fedru sefyll yn gadarn yn erbyn cynllwynion y diafol' (6:11).

'Safwch ... â gwirionedd yn wregys am eich canol'

Os ydym wedi derbyn a deall cynnwys yr epistol hyd yma, fe welwn pam mae gwirionedd yn wregys am ein canol. Gwirionedd Crist a'i Efengyl sy'n dal yr oll ynghyd, a hebdo mae'r cyfan yn syrthio wrth ein traed. Ystyriwch am foment pe na bai cynnwys yr adnodau nesaf yn wir! Y cyfan a gawn ynddynt wedyn yw darluniau geiriol, gwag. Ond yn eu gwirionedd y mae eu nerth. Cyfiawnder Crist sy'n amddiffyn ein calon - sef gorsedd ein teimladau a'n hewyllys - rhag pob cyhuddiad. Wrth sefyll yn gadarn, hyder a pharodrwydd i gyhoeddi Efengyl Crist yw ein symbyliad. Tarian ffydd sy'n diffodd arfau'r un drwg, nid ein rhesymeg. A tybed a yw helm iachawdwriaeth yn ddiogel am ein pen a chleddyf yr Ysbryd yn ein llaw?

'Ymrowch i weddi ac ymbil'

I danlinellu natur ysbrydol y frwydr, mae'r Apostol am i ni wybod, wedi sefyll yn gadarn yn ein harfwisg, mai ein tasg gyntaf yw gweddi ac ymbil, a hynny bob amser yn yr Ysbryd. Peidiwch, da chi, â baglu dros ieithwedd brwydr Paul: dyma ble mae'r gad i'w hennill neu ei cholli, mewn gweddi ac ymbil effro dros y saint, yn enwedig dros y rhai sy'n 'llysgennad mewn cadwynau', a'r rhai sy'n ceisio cyhoeddi'r Efengyl yn yr oes wrthnysig hon.

Cofiw, a phwyswn i mewn i'r gwirionedd, mai ei bresenoldeb ymhlith ei bobl, ac yn ein calonau yw ein grym mwyaf.

Darlleniad 3

Salm 145:8-21 'Y mae'r ARGLWYDD yn agos at bawb sy'n galw arno'

Gweddi

'Y mae'r ARGLWYDD yn agos at bawb sy'n galw arno, at bawb sy'n galw arno mewn gwirionedd.' Arglwydd, yng ngwres brwydr ysbrydol ein dydd, rydym yn galw arnat i'n cofio ac ymweld â ni o'r newydd. Gwranda ar ein cri a gwared ni. Amen.

Emyn 735 'Bydd yn wrol, paid â llithro'

Hywel Rhys Edwards
Y Parc

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteriaidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteriaidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com

www.cennad.cymru | [f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru) | [t @CennadCymru](https://twitter.com/CennadCymru)